

Plaid Cymru: Dewisiadau yn lle aelodaeth o'r UE

Y modelau masnach a'r hyn maent yn olygu i Gymru

Cyd-destun

- Bydd penderfyniad y DG i adael yr Undeb Ewropeaidd yn newid ei thelerau masnachu gyda 27 gwlad arall yr UE.
- Cafodd cynnig gan yr Wrthblaid gyda gwelliant gan y Llywodraeth ei basio ar 7 Rhagfyr 2016 yn cytuno y caiff Erthygl 50 ei thanio erbyn 31 Mawrth 2017, ac y byddai Llywodraeth y DG yn cyhoeddi cynllun cyn gwneud hynny. Hyd yma, ni chynigiwyd fawr ddim i'r cyhoedd o ran safbwynt trafod y Llywodraeth.
- Ers 24 Mehefin 2016 bu Plaid Cymru yn glir ac yn gyson yn ei hagwedd am y dewis fodel i'r Deyrnas Gyfunol adael yr UE.
- Ein consŷrn yn anad dim yw gwarchod buddiannau cenedlaethol Cymru ac y mae hynny yn golygu rhoi blaenoriaeth i'r economi.
- Mae hynny'n golygu cadw aelodaeth of the Farchnad Sengl Ewropeaidd ac aros yn yr Undeb Tollau.
- Mae'r papur hwn yn asesu fframweithiau masnachu posib yn y dyfodol y bydd yn rhaid i Lywodraeth y DG ystyried wrth ffurfio eu cynllun cyn tanio Erthygl 50 ac y mae'n esbonio'r meddylfryd y tu ôl i'n safbwynt.
- Mae'r modelau posib yn amrywio o gadw neu adnewyddu ein haelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, cadw aelodaeth o'r Undeb Tollau gyda'r UE, trafod Cytundeb Masnach Rydd unswydd gyda'r UE neu ddychwelyd at berthynas fasnachu seiliedig yn unig ar reolau Sefydliad Masnach y Byd.

Safbwynt Plaid Cymru

- Bu Plaid Cymru yn glir ac yn gyson yn ei safbwynt at y dewis fodel i'r Deyrnas Gyfunol adael yr UE.
- Ein consŷrn yn anad dim yw gwarchod buddiannau cenedlaethol Cymru ac y mae hynny yn golygu rhoi blaenoriaeth i'r economi.
- Wedi dwys ystyried, daeth Plaid Cymru i'r casgliad mai cadw aelodaeth o'r **Farchnad Sengl Ewropeaidd** a chadw ein haelodaeth o'r **Undeb Tollau** yw'r dewis lleiaf niweidiol i Gymru ac anogwn Lywodraeth y DG i fwrw ymlaen gyda thrafodaethau'r UE mewn modd fydd yn gwarchod buddiannau Cymru.

AEE – Aelodaeth o'r Farchnad Sengl Ewropeaidd

Beth ydyw?

- Wrth adael yr Undeb Ewropeaidd, gallai'r DG ymuno a'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd (AFRE) a dod yn rhan o Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).
- Enw arall ar y model hwn yw 'Brexit meddal'. Byddai'n caniatáu i'r DG aros yn aelod o'r Farchnad Sengl Ewropeaidd. mae hyn yn golygu parhau i fod â rhyddid symud i fasnach, gwasanaethau, buddsoddiad a llafur.
- Caiff pob gwlad sy'n gwerthu i'r AEE 'fynediad', er mai trwy aelodaeth yn unig y gellir gwarantu masnach rhydd o dariffau.

- Dyma fyddai'r dewis lleiaf niweidiol i economi Cymru.

Pam ei fod yn bwysig?

- Cefnogir 200,000 o swyddi jobs yng Nghymru gan ein masnach â'r Farchnad Sengl¹. Mae cwmnïau rhyngwladol yn dewis cael eu canolfannau yng Nghymru am eu bod yn ei gweld fel porth i farchnad Ewropeaidd broffidiol.
- Mae Cymru yn allforio gwerth £5 biliwn² yn fwy o nwyddau nac y mae'n fewnforio, sy'n golygu ei bod yn dibynnu'n drwm ar fasnach gyda'r UE. Os caiff y broses fasnachu hon ei rhwystro trwy dariffau neu rwystrau di-dariff, yna gallai Cymru weld dirywiad mewn busnesau sy'n barod i fuddsoddi yma.
- Mae'r posibilrwydd o adael y Farchnad Sengl eisoes yn peri pryder i gwmnïau yng Nghymru:
 - Mae Ffederasiwn y Diwydiannau Almaenig yn y DG, sy'n cynrychioli cwmnïau Almaenig yn y DG, sydd â'i bencadlys yng Ngwynedd, wedi mynegi pryder am golli hyder ym marchnad y DG.
 - Mae Airbus yn cyflogi 6,000 yn eu safle ym Mrychdyn yn Sir y Fflint a gallant yn hawdd symud eu gweithrediadau i Ewrop.³
 - Mae Ford yn cyflogi 1,800 o bobl ym Mhenybont ac wedi cyhoeddi eu bwriad i haneru eu cynhyrchiad peiriannau petrol newydd.⁴
 - Rhoes y cwmni o China, Longhua, y gorau i gytundeb gyda FieldMaster Tractors yn y Betws, ger Rhydaman oedd wedi addo 40 o swyddi newydd oherwydd yr ansicrwydd ynghylch masnachu yn y dyfodol gydag Ewrop.

A yw'n broses hawdd?

- Byddai aros yn yr AEE yn golygu bod yn rhan o strwythur sy'n bodoli eisoes ar gyfer ymwneud, sydd eisoes yn digwydd gyda Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ, ac a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i fusnesau a dinasyddion ac sy'n fwy tebygol o gael ei drafod a'i gadarnhau o fewn y cyfnod o amser penodol a wynebwn.

A oes unrhyw anfanteision?

- Nid oes gan wledydd yr AEE heb fod yn yr UE bwerau ffurfiol dros wneud penderfyniadau yn unrhyw rai o sefydliadau'r UE.
- Dan gytundeb yr AEE mae mynediad cyfyngedig at y Farchnad Sengl i nwyddau amaethyddol a physgodfeydd, ac nid yw'r cytundeb yn cynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Er mwyn i'r model hwn lwyddo, rhaid meddwl yn ofalus am ddatblygu polisi amaethyddol fydd yn diogelu ein ffermwyr.

1. Aelodaeth o Undeb Tollau'r UE

Beth ydyw?

- Fel Marchnad Sengl yr UE, mae Undeb Tollau'r UE yn fath o ardal masnach rydd.
- Mewn Undeb Tollau, mae dwy neu fwy o wledydd yn cytuno i ddileu cyfyngiadau ar fasnachu gyda'i gilydd. Maent hefyd yn cytuno i sefydlu system gyffredin o dariffau a chwotâu mewnforio ar nwyddau o wledydd y tu allan i'r undeb tollau – yr hyn a elwir yn 'Dariff Allanol Cyffredin'.

¹ http://www.jillevans.net/eu_membership_benefits_and_challenges_for_wales.pdf

² <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-exports/?lang=cy>

³ <https://www.ft.com/content/77e6e934-c571-11e6-8f29-9445cac8966f>

⁴ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-37295554>

- Dan Undeb Tollau'r UE, mae nwyddau sy'n dod i'r DG o'r tu allan i'r UE yn destun y Tariff Allanol Cyffredin. Nid yw nwyddau sy'n gadael y DG ac yn mynd i'r UE yn gorfod talu costau'r tariff ychwanegol oherwydd bod y DG y tu mewn i ardal fasnach rydd Undeb Tollau'r UE.
- Byddai'n rhaid i nwyddau sy'n cael eu mewnforio i ardal yr Undeb Tollau hefyd ddilyn 'rheolau tarddiad' – y gofyniad i bennu lle cafodd cynnyrch a'i gydrannau eu cynhyrchu er mwyn sicrhau y telir y dreth fewnforio gywir.

Pam ei fod yn bwysig?

- I lawer busnes yng Nghymru, byddai bod y tu allan i'r Undeb Tollau yn golygu gosod tariffau sawl gwaith, ar gydrannau sy'n cael eu mewnforio o'r UE ac eto ar y cynhyrchion terfynol sy'n cael eu rhoi at ei gilydd yn y DG i'w hallforio i'r UE.
- Dywedodd Llywodraeth Siapan, yn eu llythyr agored at y DG a'r UE am Brexit, mai eu blaenoriaeth gyntaf oedd cynnal y cyfraddau tariff a'r gweithdrefnau clirio tollau cyfredol.⁵
- Mae 45 o gwmnïau Siapaneaidd yn gweithredu yng Nghymru ac yn cynnal 6,000 o swyddi⁶. Mae'n cynnwys cwmnïau fel Mitsui Components y diwydiant ceir yn Rhydaman, sy'n cyflogi 250 o bobl.
- Mae gweithgynhyrchu yn werth £9biliwn i economi Cymru, a byddai peryglu hyn yn anghyfrifol.
- Mae aelodaeth o Undeb Tollau'r UE hefyd yn sicrhau nad yw busnesau yn gorfod dioddef gormod o fiwrocratiaeth neu 'rwystrau heb fod yn dariffau'. Gallai hyn fod cymaint â 4%-15% o gost nwyddau – costau allai hyd yn oed fod yn uwch na'r tariff allanol fyddai'n cael ei osod fel arall.⁷
- Gallai gosod 'rheolau tarddiad' trwy adael yr Undeb Tollau gostio 1-1.2% o GDP.⁸
- Gan y bu'r DG yn aelod o Undeb Tollau'r UE a'i ragflaenwyr ers 1973, trafodwyd ei holl fargeinion masnach rydd ers hynny fel cyfanwaith. Byddai gadael yr Undeb Tollau yn golygu colli mynediad at 56 bargaen fasnach yr UE gyda gwledydd allweddol eraill.

A yw'n broses hawdd?

- Fel yr AEE, mae'r Undeb Tollau yn bodoli eisoes fel endid; fe'i ffurfir o Aelod-Wladwriaethau'r UE, ac mae hefyd yn cynnwys Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel, ac, yn dilyn cychwyn trafodaethau derbyn ym 1995, Twrci.

A oes unrhyw anfanteision?

- Y brif feirniadaeth o barhau yn aelod o'r Undeb Tollau yw fod Aelod-Wladwriaeth yn colli'r gallu i lunio ei pholisi masnach allanol ei hun. Byddai hyn yn golygu na allai'r DG ddod i gytundebau masnach rydd gyda gwledydd eraill heb gefnogaeth yr UE. Fodd bynnag, byddai parhau yn aelod o'r Undeb Tollau yn golygu y byddai ei holl aelodau yn trafod fel bloc, sy'n golygu mwy o rym mewn trafodaethau.

2. Cytundeb Masnach Rydd

Beth ydyw?

⁵ <https://www.ft.com/content/98dd4eb4-729f-11e6-bf48-b372cdb1043a#axzz4JOOdSKxA>

⁶ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/japanvisit/?lang=cy>

⁷ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/271784/bis-14-512-trade-and-investment-balance-of-competence-review-project-report.pdf

⁸ <http://openeurope.org.uk/today/blog/post-brexit-leaving-customs-union-no-brainer/>

- Cytundeb masnach unswydd rhwng dwy wlad yw Cytundeb Masnach Rydd (CMR).
- Yn hytrach na gwneud darprïaeth am fasnach gyfan gwbl rydd, mae CMR yn rhoi mynediad ffafriol i'r farchnad mewn perthynas â sefyllfa lle nad oes cytundeb yn bod eisoes. Byddai hyn yn golygu y gellid cael tariffau is na'r rhai a nodwyd gan yr WTO, ond rhai uwch na'r rhai oedd eisoes yn cael eu cynnig dan aelodaeth o'r Farchnad Sengl.

Pam nad dyma'r model y dylid ei ddewis?

- Ni fyddai bargaen CMR bosib yn gwarantu'r lefelau o fasnach rydd a fwynheir dan Farchnad Sengl yr UE nac aelodaeth o'r Undeb Tollau.
- Mae CMR yn gymhleth ac yn araf. Cyn ceisio cychwyn trafodaethau ffurfiol, byddai angen cael cyfnod cynllunio, gydag ymgynghori eang a thrylwyr.
- Mae perthynas gymhleth bresennol y DG gyda'r UE yn golygu ei bod yn anodd rhagweld dod i unrhyw CMR mewn pryd i'r amser pan fydd y DG yn gadael yr UE. Mae CMR yn cymryd blynyddoedd i'w cwblhau, ac yn ôl amserlen Llywodraeth y DG, byddai angen iddynt drafod ymadawiad y DG o'r UE ochr yn ochr â CMR erbyn Mawrth 2019 – rhywbeth a fyddai, ym marn y rhan fwyaf o arbenigwyr, yn amhosib.
- Gwyddom eisoes fod ansicrwydd yn golygu fod busnesau yn tynnu allan o fuddsoddi yng Nghymru. Dangosodd adroddiad diweddaraf Mynegai Busnesau Bach yr FSB am y DG⁹ am y tro cyntaf mewn pedair blynedd, fod mwy o fusnesau yn negyddol nac yn gadarnhaol am y dyfodol. Dyma'r trydydd chwarter yn olynol lle bu gostyngiad mewn hyder. All Cymru ddim fforddio moethusrwydd amser.

A yw'n broses hawdd?

- Na. Hyd yn oed unwaith i'r DG benderfynu ar strategaeth drafod ar gyfer CMR gydag Ewrop, bydd y broses yn faith. O safbwynt yr UE, mae argymhellion yn cael eu drafftio gan y Comisiwn a fydd wedyn angen mandad y Cyngor. Bydd y Comisiwn wedyn yn defnyddio'r mandad i drafod gyda'r DG. Mae'n debygol mai 'cytundeb cymysg' fydd y CMR, yn cyffwrdd â meysydd cymhwysedd Aelod-Wladwriaethau'r UE, sy'n golygu bod yn rhaid awdurdodi'r cytundeb ar wahân gan bob un o'r Aelod-Wladwriaethau. Mae'r broses hon o ymgynghori a chadarnhau yn aml-haenog ac yn mynnu consensws ar bob lefel, gan ei gwneud yn hirfaith iawn.
- Un model sy'n cael ei ystyried fel CMR posib yw'r Cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr (CEMC) – bargaen Canada gyda'r UE. Wedi bron i ddeng mlynedd o drafodaethau, daethpwyd i gyfaddawd o'r diwedd. Nid yw Senedd Ewrop eto wedi cymeradwyo'r fargen a disgwylir y bleidlais ym mis Chwefror 2017.
- Yn debyg i'r cytundeb 'TTIP' mwy adnabyddus, gallai CEMC arwain at i gorfforaethau mawr Canada fod mor rymus â Llywodraeth y DG, gan fynd â hwy i gyfraith am beidio â rhoi mynediad at rai rhannau o'r farchnad a rhoi ein gwasanaethau cyhoeddus mewn perygl o breifateiddio.¹⁰

A oes unrhyw nodweddion cadarnhaol?

- Mae CMR yn rhoi mynediad ffafriol i'r farchnad mewn sefyllfa lle nad oes cytundeb yn bod eisoes. Wrth gwrs, rydym yn cychwyn o bwynt lle'r ydym yn aelodau llawn o'r Farchnad Sengl, felly byddai unrhyw gam i ffwrdd o hyn yn peryglu masnach, swyddi a hyd yn oed wasanaethau cyhoeddus Cymru.

⁹ <http://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb-sbi-q3-2016.pdf?sfvrsn=0>

¹⁰ <http://www.unitetheunion.org/news/workers-uniting-condemns-eu-canada-trade-agreement/>

3. Sefydliad Masnach y Byd

Beth ydyw?

- Nod Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yw gwneud masnach yn fwy rhydd trwy ostwng tariffau a lleihau neu ddileu rhwystrau eraill i fasnachu.
- Er mwyn creu system gyson o fasnachu byd-eang, mae'r WTO yn cymhwyso rheolau anwahaniaethol, sy'n golygu na chânt wahaniaethu rhwng partneriaid masnachu ac y mae'n rhaid i aelodau gymhwyso'r un tariffau a chynnig yr un mynediad i'r farchnad i holl aelodau'r WTO. Mae hyn yn wir am fasnachu mewn nwyddau ac mewn gwasanaethau.
- Nid yw rheolau'r WTO yn gymwys os cytunwyd ar Fargen Masnach Rydd neu Undeb Tollau.

Pam nad dyma'r model y dylid ei ddewis?

- Byddai tariffau neu rwystrau i fasnachu dan reolau'r WTO, wrth gwrs, yn golygu cynnydd mewn costau, mewn cymhariaeth â'r Farchnad Sengl ac aelodaeth yr Undeb Tollau. Byddai hyn yn y pen draw yn taro costau byw a swyddi gan y byddai'n rhaid i fusnesau godi prisiau i wneud iawn am gostau tariffau uwch.
- Er enghraifft, mae'r UE yn gosod tariff cyfartalog o ryw 14% ar fewnforion amaethyddol o wledydd heb fod yn yr UE, gyda chyfraddau uwch ar eitemau unigol. Y tu allan i'r Farchnad Sengl, gallai allforion cynnyrch llaeth ddenu tariff o 36%, ac allforion cig eidion dariff o rhwng 58% a 70%.¹¹
- Petaem yn gadael y Farchnad Sengl ac yn gorfod dibynnu ar reolau Sefydliad Masnach y Byd, gallai cost ychwanegol allforio cig eidion fod yn £240miliwn y flwyddyn, gyda £90miliwn yn cael ei ychwanegu at gost allforio cig oen.¹²

A yw'n broses hawdd?

- Na. Yn groes i'r hyn ddywed rhai gwleidyddion, all y DG ddim 'dychwelyd' at reolau'r WTO.
- Mae'r DG yn aelod o'r WTO yn ei hawl ei hun. Fodd bynnag, nid oes ganddi 'atodlenni a chonhesiynau' unigol am ei bod yn rhan o'r UE sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli'r DG yn yr WTO. Wrth adael yr UE, bydd yn rhaid i'r DG wahanu ei hatodlenni oddi wrth yr UE, a bydd ei hatodlenni newydd yn gorfod cael eu cymeradwyo gan holl aelodau'r WTO.¹³
- Cyn trafod ei 'hatodlenni' gydag aelodau'r WTO, bydd yn rhaid i'r DG drafod gwahanu ei chwotâu cyfradd tariffau oddi wrth elod-Wladwriaethau'r UE. Mae'r cwotâu di-dariff hyn yn rhoi tollau is ar rai fewnforion ac ni fydd yn hawdd cytuno ar y cwotâu hyn.
- Wedi cytuno ar rannu'r cwotâu cyfradd tariffau, byddai'r DG wedyn mewn sefyllfa i'w cyflwyno i aelodau eraill yr WTO. Mae'n debyg y byddai dod i gytundeb gydag aelodau'r WTO yn broblemus gan y byddai rhai gwledydd yn debygol o fynnu telerau mynediad gwell i farchnad y DG gan nad yw bellach yn aelod o'r UE.
- Gall aelodau'r WTO hefyd fynnu gwybod canlyniadau trafodaethau masnachu ehangach rhwng yr UE a'r DG cyn ardystio atodlenni'r DG. Er enghraifft, gallant fynnu tariffau mewnforio is gan y DG i wneud iawn am y ffaith y gall nwyddau a allforir o'r DG i Ewrop fod yn destun tariffau.
- Gall pob un o 163 aelod arall yr WTO osod feto ar gynigion y DG.

A oes unrhyw nodweddion cadarnhaol?

¹¹ http://www.jillevans.net/agriculture_eu_factsheet.pdf

¹² http://www.jillevans.net/agriculture_eu_factsheet.pdf

¹³ <https://www.ft.com/content/5741129a-4510-11e6-b22f-79eb4891c97d>

- Byddai dychwelyd at reolau'r WTO wedyn yn caniatáu i'r DG lunio ei CMR ei hun.

Atodiad – Tabl dewisiadau

Darpariaethau a gynhwysir ym mhob fframwaith	1. AEE	2. Undeb Tollau	3. Cytundeb Masnach Rydd	4. Sefydliad Masnach y Byd
Masnachu gyda'r Farchnad Sengl	Aelodaeth lawn o'r Farchnad Sengl mewn gwasanaethau, mynediad rhannol i'r farchnad i fasnachu mewn nwyddau.	Aelodaeth agos i lawn o'r Farchnad Sengl mewn nwyddau, dim mynediad i'r farchnad i fasnachu mewn gwasanaethau.	Dibynnu ar gwmpas a dyfnder y CMR.	Seiliedig ar restrïr UE o gonsesiynau yn yr WTO, ar sail Cenedl Sy'n Cael ei Ffaffrio.
Cyfranogi yn undeb tollau'r UE	Na.	Ie.	Na.	Na.
Derbyn egwyddor rhyddid pobl i symud	Ie.	Na.	Na.	Na.
Cyfraniadau i'r gyllideb	Ie.	Na	Na.	Na.
Ymreolaeth dros bolisi masnach	Ie, er na fydd modd newid safonau na rheoliadau.	Na, er y gellir ceisio CMR ar agweddau nad ydynt yn dod dan drefniant undeb tollau.	Ie.	Ie.
Datrys anghydfod	Trwy Gyd-Bwyllgor yr AEE a Llys AFRE.	D/G	Trwy fecanweithiau datrys anghydfod gwladwriaeth-i-wladwriaeth.	Defnydd gwladwriaeth-i-wladwriaeth o broses setlo anghydfod yr WTO.